PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 23 IONAWR 2024

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Gavin McArthur(Cadeirydd) |
| | David Price, Dr. Janet Wademan, Chris Burns, |
| | Cyng Ahmed, Carr, Lewis, Palmer a/ac Williams |

56 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim ymddiheuriadau am absenoldeb.

57 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

58 : COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2024 eu cymeradwyo'n gofnod cywir gan y Pwyllgor a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

PENDERFYNWYD - Cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 26 Mawrth 2024, gofynnir i Archwilio Cymru gyflwyno dadansoddiad o'u ffi archwilio er mwyn darparu'r costau gwirioneddol mewn perthynas â gwaith 2022/23, mewn fformat y gellir ei ailadrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn.

59 : DIWEDDARIAD AR YR AMGYLCHEDD RHEOLI CYFARWYDDIAETHAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar yr amgylchedd rheoli o fewn y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Gyfarwyddiaeth yn cwmpasu ystod eang a chymhleth o swyddogaethau a gwasanaethau. Mae gan y Gyfarwyddiaeth tua 454 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ac mae ganddi gyllideb flynyddol gyffredinol o tua £9.3 miliwn (refeniw) a £52.8 miliwn (cyfalaf). Bydd y Gyllideb Gyfalaf yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar y rhaglen prosiectau a swm y cyllid allanol a sicrheir.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r swyddogaethau allweddol, y gofynion gwasanaeth a'r blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer cynllunio, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Mae'r Cyfarwyddwr yn goruchwylio'r swyddogaethau a'r meysydd, ac yn ymwneud â nhw. Yn ystod y flwyddyn, cyflawnir dau hunanasesiad allweddol o lywodraethu da gan y Cyfarwyddwr er mwyn cael gwybod am gynnydd, heriau a blaenoriaethau. Mae'r rhain yn destun sesiynau herio gyda'r Prif Weithredwr.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r dull o reoli risg ac ymgysylltu ag archwilio mewnol a nodwyd yn yr adroddiad. Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr i roi

cyflwyniad.  Yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelod am fanylion sut mae prosiectau, fel y rheiny yn y Rhaglen Rheoli Asedau Priffyrdd (RhRhAP) yn cael eu blaenoriaethu a'u dylanwadu gan aelodau etholedig, sefydliadau partner a'r gymuned leol.  Dywedodd y swyddogion fod prosiectau o fewn y cynllun RhRhAP yn cael eu blaenoriaethu'n bennaf o ran eu cyflwr.  Mae'r RhRhAP yn cwmpasu nid yn unig ffyrdd a throedffyrdd ond hefyd yr holl asedau priffyrdd eraill fel goleuadau stryd, arwyddion ffyrdd, draenio ac adeileddau eraill.  Mae asesu a chasglu data ar asedau priffyrdd yn barhaus ac mae'r data hwn yn penderfynu nid yn unig pa waith sy'n cael ei flaenoriaethu ac ym mha drefn, ond hefyd y driniaeth orau a wneir i gael y gwerth gorau am arian.  Fodd bynnag, yn ogystal â chyflwr asedau, mae ymgysylltu ag aelodau etholedig, defnydd, ceisiadau am wasanaeth a chyfleoedd datblygu hefyd yn cael eu hystyried.  Mae'r penderfyniad terfynol ar y rhaglen waith sydd i'w chynnal o fewn yr amlen gyllidebol sydd ar gael yn cael ei wneud ar lefel Cyfarwyddwr, ar y cyd â'r Aelod Cabinet perthnasol.

- Gofynnodd Aelod i'r swyddogion ymhelaethu ar yr ymgysylltu a'r ymgynghori 'arloesol' a wnaed gan y Gyfarwyddiaeth, a oeddent wedi bod yn llwyddiannus ac iddynt amlygu unrhyw wersi a ddysgwyd.  Nododd y Cyfarwyddwr mai enghraifft fyddai'r ymgysylltu a wnaed fel rhan o'r Strategaeth Un Blaned a oedd yn cynnwys ymgysylltu â'r Cyngor Ieuenctid a grwpiau eraill o fewn y gymuned sydd yn draddodiadol yn anoddach eu cyrraedd o ran ymgysylltu.  Mae'r Aelod Cabinet a'r swyddogion arweiniol wedi cynnal cynadleddau a fforymau eraill gyda'r grwpiau hynny lle mae egwyddorion amlinellol y strategaeth wedi'u cyflwyno ac mae dealltwriaeth o flaenoriaethau'r grwpiau hynny wedi'i hennill.  Mae sesiynau ymgysylltu â'r gymuned a gynhaliwyd fel rhan o waith y Cynllun Datblygu Lleol Newydd hefyd wedi helpu i lunio'r cynigion amlinellol yn y ddogfen honno.

- O ran Strategaeth Caerdydd Un Blaned, gofynnodd Aelod sut, o ystyried cymhlethdod y materion, y llwyddodd y Gyfarwyddiaeth i ymateb i newidiadau a datblygiadau 'amser real' ac aros wrth y llyw a pheidio â cholli cyfleoedd.  Roedd y Cyfarwyddwr o'r farn mai un o'r heriau i Strategaeth Caerdydd Un Blaned oedd yr ystod eang o fentrau sydd eu hangen er mwyn i'r Strategaeth fod yn llwyddiannus.  Mae amrywiaeth o wahanol ffyrdd y gall yr awdurdod ymateb i ddatblygiadau arloesol yn ymwneud ag adeiladau, trafnidiaeth, cynhyrchu ynni a chadwraeth ynni, ac ati.  Er enghraifft, ymgysylltu ag arbenigwyr a sefydliadau partner ac arfer gorau gan ddiwydiant ac yn fewnol o fewn y Cyngor.  Mae datblygiadau arloesol o'r fath yn cael eu ffurfio'n brosiectau ymarferol y gellir eu cyflawni o fewn strwythur llywodraethu'r Cyngor a'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

60 : DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN AC

Gwahoddwyd Julie Rees o Archwilio Cymru i gyflwyno Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru.

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar y gwaith archwilio ariannol a oedd yn mynd rhagddo a dywedwyd wrthynt fod cynnydd da wedi'i wneud o ran yr archwiliad o’r Datganiad Cyfrifon. Roedd y Cynllun Archwilio wedi nodi risg o ran prisiadau asedau, yn benodol y risg o newidiadau mewn prisiadau asedau ers eu gwerthusiad llawn diwethaf o ystyried chwyddiant cyfredol a phwysau eraill. Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad ac mae bellach wrthi'n gwerthuso'r canlyniadau ac ystyried y goblygiadau i'r fantolen ddrafft yn barod ar gyfer diwedd yr archwiliad ym mis Mawrth 2024. Ni adroddwyd am unrhyw faterion eraill a oedd yn dod i'r amlwg.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod archwiliadau Archifau Morgannwg a Phrosiect Gwyrdd wedi'u cwblhau. Adroddwyd cynnydd da ar yr archwiliadau Pensiwn Athrawon ac Ardrethi Annomestig hefyd. Mae archwiliad o Fudd-dal Tai hefyd wedi dechrau.

Rhoddodd Sara-Jane Byrne grynodeb o'r archwiliadau perfformiad ers y diweddariad blaenorol. Cyflwynwyd y wybodaeth am berfformiad a'r adroddiadau thematig digidol ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod. Mae dyddiad ym mis Chwefror wedi'i drefnu gyda'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) i drafod canfyddiadau'r asesiad risg sicrwydd. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y bydd yr adolygiad thematig o gaffael a rheoli contractau yn canolbwyntio'n llwyr ar gomisiynu ar ôl ystyried cwmpas yr adolygiad a'r adnoddau sydd ar gael. Bydd mwy o fanylion am yr adolygiad hwnnw yn cael eu rhannu maes o law. Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd nodi’r astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol a’r diweddariadau gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 61 : ADOLYGIAD O’R STRATEGAETH DDIGIDOL: ADRODDIAD CYNGOR CAERDYDD

Gwahoddwyd Sara-Jane Byrne o Archwilio Cymru i roi trosolwg o ganfyddiadau'r adroddiad ar yr Adolygiad o’r Strategaeth Ddigidol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod adolygiadau wedi'u cynnal ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a bydd y canfyddiadau'n cael eu rhoi mewn adroddiad cryno cenedlaethol ar y canfyddiadau ehangach.

Canolbwyntiodd yr adolygiad ar ddull strategol yr awdurdod o ddigido gwasanaethau ac i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ei ddull gweithredu. Daeth yr adolygiad i ben gyda nifer o ganfyddiadau cadarnhaol a nodwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd diffyg amcanion clir ag amserlen benodol. At hynny, ni nodwyd effeithiau byrdymor a hirdymor ei strategaeth, ac roedd Archwilio Cymru o’r farn y gallai hyn effeithio ar allu'r Cyngor i fonitro a gwerthuso cynnydd y strategaeth. Nid oedd y Cyngor ychwaith wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion wrth ddatblygu'r strategaeth yn 2017/18. Gwnaeth Archwilio Cymru sylw hefyd ar y diffyg agweddau goruchwylio corfforaethol ar y strategaeth.

Gwnaed y 3 argymhelliad canlynol.

*Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth*
A1 Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn wybodus a bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, wrth ddatblygu ei strategaeth, dylai'r Cyngor dynnu ar dystiolaeth o ystod ehangach o ffynonellau, gan gynnwys mwy o gyfranogiad gan randdeiliaid sydd â diddordeb yn y strategaeth ddigidol.

*Nodi goblygiadau adnoddau*
A2 Er mwyn helpu i sicrhau bod modd cyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf ac i helpu i fonitro gwerth am arian, dylai'r Cyngor nodi goblygiadau adnoddau byrdymor a hirdymor ei chyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fwriedir.

*Trefniadau i wella goruchwyliaeth gorfforaethol*
A3 Er mwyn galluogi gwell goruchwyliaeth gorfforaethol ac asesu gwerth am arian o'i strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth a'i heffaith gyffredinol dros y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

Gofynnodd Aelod a oedd Archwilio Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad dilynol o ran Cymru decach ac am allu rhai rhannau o'r gymuned i gael mynediad at wasanaethau drwy ddulliau digidol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd Archwilio Cymru yn gweithredu dull ar sail risg o ymdrin ag unrhyw adolygiad dilynol a benderfynir gan sut mae'r Cyngor yn gweithredu'r argymhellion. Fodd bynnag, roedd Archwilio Cymru yn ystyried y thema anghydraddoldeb yn eu blaenraglen waith. Cytunodd Sara-Jane Byrne i gael gwybod a fyddai hyn yn cynnwys gwaith ar gynhwysiant digidol ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Gofynnodd Aelod a yw'r Strategaeth Ddigidol a dull y Cyngor o ddigideiddio wedi nodi yn ddigonol unrhyw arbedion cost posibl y gellir eu cyflawni trwy ddefnyddio technoleg ddigidol. Roedd yr Aelod o'r farn y gallai fod costau ychwanegol pan wneir buddsoddiad wrth symud tuag at ddulliau digidol a dim ond yn y tymor hwy y gellir gwneud arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd. Nododd Sara-Jane Byrne fod paragraff 20 yr adroddiad yn nodi bod y Cyngor wedi nodi'r goblygiadau adnoddau a ragwelir wrth gyflawni'r Strategaeth, gan gynnwys arbedion fesul prosiect. Dywedodd y Prif Swyddog Digidol fod pob menter ddigidol yn cael ei chefnogi gan achos busnes. Mae'r achosion busnes wedi cael eu harchwilio ac wedi dangos Gwerth da am Arian. Ystyriwyd bod yr adroddiad wedi nodi nad oedd trosolwg eang o brosiectau digideiddio ym mhob gwasanaeth. Derbyniodd y Prif Swyddog Digidol yr argymhelliad a chytunodd fod angen i'r awdurdod wneud gwelliannau mewn perthynas â hyn.

PENDERFYNWYD -

- Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.
- Bod Archwilio Cymru yn cael gwybod a yw'r thema anghydraddoldeb yn eu blaenraglen waith yn cynnwys gwaith ar gynhwysiant digidol ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

62 : DEFNYDDIO GWYBODAETH AM BERFFORMIAD: PERSBECTIF A CHANLYNIADAU DEFNYDDWYR GWASANAETH - ADRODDIAD CYNGOR CAERDYDD

Cyflwynodd Rachel Harries o Archwilio Cymru brif ganfyddiadau'r adroddiad uchod. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr adolygiad wedi'i gynnal ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a byddai adroddiad cryno cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Atgoffwyd yr Aelodau o gwmpas yr adolygiad a oedd yn canolbwyntio ar yr adroddiadau craidd y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i helpu uwch arweinwyr i fonitro a rheoli ei berfformiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd Archwilio Cymru fod y materion allweddol a nodwyd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Roedd rhai meysydd cadarnhaol a rhai meysydd gwella wedi'u nodi, gan gynnwys cysondeb o ran sut y cesglir safbwynt defnyddwyr gwasanaeth ar draws y Cyngor a sut y caiff y wybodaeth honno ei hadrodd i uwch arweinwyr.

Dywedodd Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau fod y Cyngor yn derbyn argymhelliad Archwilio Cymru. Ystyriwyd bod gan y Cyngor lawer o wybodaeth o safbwynt y dinesydd ar y gwasanaethau y mae'n eu darparu, ond mae angen cryfhau'r cysylltiadau â'r fframwaith perfformiad. Mae'r ymateb gan reolwyr i'r adroddiad yn derbyn yr argymhelliad ac yn ymrwymo i adolygu'r Cynllun Corfforaethol i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng amcanion lles a dangosyddion boddhad dinasyddion. Bydd cynlluniau cyflawni cyfarwyddiaethau ar gyfer 2024/25 yn cynnwys adran ar ymatebion ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys ymatebion i'r arolwg, cwynion a chanmoliaeth, ac ati. Bydd adolygiad hefyd yn cael ei gynnal o gymaryddion dinas graidd a Chymru gyfan hefyd.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ar raddfa'r mater a nodwyd gan Archwilio Cymru. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr awdurdod, ar y cyfan, yn cynnal ymgynghori ac ymgysylltu da â defnyddwyr gwasanaeth ac yn derbyn cyfraddau ymateb da i arolygon. Fodd bynnag, mae Strategaeth Cyfranogiad yr awdurdod yn nodi bod angen gwneud mwy o waith i gyrraedd grwpiau â nodweddion gwarchodedig nad ydynt fel arfer yn ymateb i ymgynghoriadau. Mae'r Strategaeth yn nodi nifer o fentrau sy'n ceisio gwneud hyn. Ni ystyriwyd bod cysylltu ymatebion â'r fframwaith perfformiad yn fater sylweddol ac mae ymrwymiad y byddai'n cael ei gywiro erbyn mis Ebrill 2024.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 63 : DIWEDDARIAD ARIANNOL YN CYNNWYS MATERION GWYDNWCH

Cyflwynodd Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151, ddiweddariad ariannol ar faterion gwydnwch a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r awdurdod, gan gynnwys y Grant Setliad Refeniw Dros Dro, y modelu a’r bwlch cyllideb ar gyfer 2024/25, ymgynghoriad cyllideb a pharatoi’r gyllideb.

Nododd Aelod fod y modelu wedi'i seilio ar gynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor. Gofynnodd yr Aelod a oedd modelu wedi'i wneud ar ffigurau cynnydd Treth Gyngor amgen. Dywedodd y Swyddog Adran 151 nad oes unrhyw waith modelu wedi'i wneud ar wahanol ystodau o Dreth Gyngor. Fodd bynnag, bob blwyddyn cyfrifir 'cyfrifydd' Treth Gyngor, sy'n rhoi syniad o gyllid ar gyfer pob cynnydd o 1% a

ddefnyddir i lywio strategaeth y gyllideb ac unrhyw gynigion cyllideb amgen. Gwerth cynnydd o 1% yw tua £1.8 miliwn net o gyllid ychwanegol. Wrth ymateb i gwestiwn atodol, dywedodd y Swyddog Adran 151 y bydd strategaeth ddrafft y gyllideb yn cael ei chyflwyno i bob Pwyllgor Craffu dros y 4 wythnos nesaf, a bydd yn cynnwys yr holl dybiaethau sydd eu hangen i gau'r bwlch cyllideb sy'n weddill.

Gofynnodd Aelod pa systemau rheoli perfformiad sydd ar waith i fesur i ba raddau y mae staff yn gweithio ar gapasiti llawn a beth mae'r wybodaeth honno'n ei ddangos. Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod y fframwaith rheoli perfformiad yn cynnwys adolygiadau unigol ac adolygiadau o'r cynlluniau cyflawni adrannol. Fodd bynnag, bydd cynhyrchiant unigol i staff mewn rhai gwasanaethau yn haws ei fesur oherwydd natur eu rôl.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 64 : Y TÎM YMCHWILIO AC ARCHWILIO - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Cyflwynodd Chris Pyke, Rheolwr Archwilio, yr adroddiad cynnydd gan roi i'r Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am waith a pherfformiad y Timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2023, ac yn dilyn y diweddariadau a roddwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023.

Atgoffwyd yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Siarter Archwilio a'r Cynllun Archwilio ar sail risg ar gyfer 2023/24 ar 21 Mawrth 2023. Rhoddwyd gweithgarwch arfaethedig y Tîm Ymchwilio i'w ystyried hefyd.

Rhoddodd yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol (Atodiad 1) fanylion perfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Archwilio Mewnol a chrynhoi'r gwaith a wnaed, yr argymhellion blaenoriaeth a godwyd, y canfyddiadau critigol, y tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a'r canfyddiadau gwerth am arian perthnasol ar draws y Cyngor er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Canolbwyntiodd Adroddiad Cynnydd y Tîm Ymchwilio (Atodiad 2) ar weithgareddau rhagweithiol ac adweithiol yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o dwyll, ei ganfod ac ymchwilio iddo, gan gynnwys cymryd rhan mewn mentrau, fel ymarferion paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol (MTG).

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi adrannau yn Atodiad 1 sy'n cyfeirio at y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (SAMB) newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac a fydd yn dod i rym yn ystod 2025. Rhoddodd y Rheolwr Archwilio grynodeb hefyd o'r adnoddau, cynnydd y cynllun blynyddol, y canfyddiadau critigol a'r ymchwiliadau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Gofynnodd Aelod am fwy o fanylion am Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod gan Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd feini prawf penodol sy'n ymwneud â sut mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu i ddysgwyr, a fydd yn cael eu rhannu ar ôl y cyfarfod, a bod adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn ardystio bod y cyfrifon yn gywir bob blwyddyn. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod archwiliadau o'r natur hon yn cyfrif am nifer gymharol fach o ddiwrnodau archwilio yn y Cynllun Archwilio.

Roedd Aelod o'r farn y gallai fod angen defnyddio'r Cynllun Archwilio yn y blynyddoedd i ddod mewn modd mwy strategol a'i alinio â meysydd sydd wedi profi toriadau sylweddol i gyllid a lle gallai fod bygythiad i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir o ganlyniad.

Gofynnodd Aelod am sicrwydd bod y Cyngor yn rhoi cymorth digonol i ysgolion o ran seiberddiogelwch. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod manylion yn cael eu rhoi o'r gwaith archwilio sicrwydd a wnaed yn ddiweddar mewn ysgolion ar y maes hwn yn Adran 2.4 Canfyddiadau Critigol a Thueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg. Dywedodd fod y Cyfarwyddwr Addysg a'r Prif Swyddog Digidol wedi derbyn trosolwg o'r adroddiad a'i argymhellion.

Gofynnodd yr Aelod am sicrwydd pellach hefyd o ran ystyriaethau gwerth am arian mewn perthynas â'r farn archwilio 'annigonol ac angen gwelliant mawr' ar gyfer Amrywiadau Contract a Chydymffurfiaeth â Safon Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu (PCI-DSS). Roedd y Rheolwr Archwilio o'r farn, gydag unrhyw sicrwydd barn archwilio diffygiol, fod problem mewn perthynas ag economi, effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd systemau. Roedd y farn archwilio caffael yn ymwneud ag eglurder y systemau sydd ar waith ar gyfer gorchmynion amrywio, a'r parodrwydd ar gyfer deddfwriaeth gaffael newydd. Roedd yr archwiliad o gydymffurfiaeth â Safon Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu (PCI-DSS) o'r farn bod y fframwaith llywodraethu yn effeithiol, ond mewn un lleoliad roedd cofnodion samplu wedi'u cadw am fwy o amser nag y dylent fod wedi bod, ac mewn fformat nad oedd yn cydymffurfio. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwnnw ar unwaith ond arweiniodd y canfyddiad at y farn ddiffygiol.

Gofynnwyd i'r Rheolwr Archwilio egluro effaith ariannol yr ymarfer Treth Gyngor a Chofrestr Etholiadol blynyddol. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod achosion yn cael eu hagor fel rhan o ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol pan ddarganfyddir pariadau data. Nodir gwerth ariannol yr achosion hynny yn yr adroddiad yn erbyn y cyfnod adrodd y caiff ymchwiliadau eu cwblhau ynddo.

Dywedodd Aelod pan fydd Pwyllgor Craffu yn cynnal ymholiad craffu, os yw'n berthnasol, dylid cynnwys adroddiadau archwilio o fewn ystyriaeth y pwyllgor craffu ar y mater. Nid oedd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol na'r Swyddog Adran 151, a oedd wedi derbyn llythyr i'r perwyl hwn yn ddiweddar o ganlyniad i adolygiad craffu o'r Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog, wrthwynebiad a dywedon nhw, lle ceir barn archwilio anfoddhaol, y gellir hysbysu'r cadeirydd craffu perthnasol am yr adroddiad yn y dyfodol. Roedd y Rheolwr Archwilio hefyd yn cytuno.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 65 : SIARTER ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN ARCHWILIO CRYNO DRAFFT 2024/25

Derbyniodd y Pwyllgor y Siarter Archwilio Mewnol Ddrafft ar gyfer 2024/25, gan gynnwys Cylch Gorchwyl drafft y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno'r Cynllun Archwilio Cryno Drafft ar gyfer 2024/25.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r diwygiadau i'r Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25.

Gwahoddwyd y Rheolwr Archwilio i gyflwyno’r Cynllun Archwilio Cryno Drafft ar gyfer 2024/25.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y cynllun drafft wedi'i lunio gan ddefnyddio proses mapio sicrwydd sy'n parhau.  Mae hyn wedi galluogi’r swyddogion i roi crynodeb o ble y dylid defnyddio diwrnodau archwilio.  Rhoddodd y Rheolwr Archwilio drosolwg o'r cynllun drafft.  Byddai'r Cynllun Archwilio terfynol ar gyfer 2024/25 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo ym mis Mawrth 2024.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi ymhellach fod y swyddogion wedi cytuno ag Archwilio Cymru y byddai archwiliad o systemau sylfaenol yn cael ei gynnal o leiaf bob yn ail flwyddyn, neu'n amlach pe bai'r angen yn codi.  Mae nifer o ddiwrnodau archwilio wedi'u neilltuo ar gyfer hyn.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

66 : CWYNION I’R CYNGOR - ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Cwynion Canol Blwyddyn y Cyngor.  Crynhodd y Prif Swyddog Digidol, Isabelle Bignall, y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad.

Ymatebodd y Prif Swyddog Digidol i nifer o faterion a godwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Rheolwr Cwynion wedi bod yn trafod gyda Swyddog yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol ynghylch categoreiddio cwynion.  Roedd y Prif Swyddog Digidol o’r farn bod adroddiad yr Ombwdsmon yn cyflwyno data cymharol defnyddiol o ran y cwynion a dderbyniwyd am bob 100,000 o drigolion.  Mae’r canlyniadau cwynion hefyd yn rhoi dangosydd defnyddiol o ba mor dda y mae'r awdurdod yn ymateb i gwynion.  Roedd adroddiad pum mlynedd o ystadegau cwynion yr Ombwdsmon hefyd yn cael ei ddrafftio a byddai'n cael ei rannu gyda'r Pwyllgor maes o law.

Gan gyfeirio at bryderon a fynegwyd ynghylch nifer y cwynion a godwyd yn y gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau, dywedodd y Prif Swyddog Digidol fod gan y gyfarwyddiaeth lawer o bwysau o restrau aros tai a'r gwasanaeth atgyweirio tai sy'n dal i weithio trwy ôl-groniad o atgyweiriadau o bandemig Covid-19.  Mae gan y Gyfarwyddiaeth dîm penodol o swyddogion sy'n ymdrin â chwynion.  Mae nifer y cwynion wedi cynyddu a disgwylir iddynt gynyddu ymhellach, ond mae cyfradd ymateb y Gyfarwyddiaeth yn gwella hefyd.  Bydd y Gyfarwyddiaeth yn ymdrin â llawer o achosion cymhleth a fydd yn gofyn am fwy o amser na'r ymateb 20 diwrnod safonol.  Bydd y Gyfarwyddiaeth yn cyflwyno system gwynion Halo yn y dyfodol agos.

Nododd Aelod mai casgliadau gwastraff sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o gwynion.  Gofynnodd yr Aelod am eglurhad o'r hyn a ystyrir yn gŵyn gan ddefnyddwyr gwasanaeth.  Dywedodd y Prif Swyddog Digidol fod ceisiadau cychwynnol yn cael eu hystyried yn gais am wasanaeth e.e. casgliad bin a fethwyd.  Byddai'r cais am wasanaeth yn cael ei nodi ond ni fyddai'n cael ei ystyried yn gŵyn.  Fodd bynnag, os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn gofyn am wneud cwyn am y mater, yna byddai'n cael ei ystyried yn gŵyn ffurfiol.

Nododd Aelod fod y gwaith o weithredu system Halo ar y trywydd iawn.  Gofynnodd yr Aelod a yw'r system wedi'i phrofi'n llawn a phryd y byddai'r system yn cael ei lansio.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y system ar y trywydd iawn i'w lansio ddiwedd mis Ionawr 2024.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

67 : DIWEDDARIAD ADRODDIAD HUNANASESU CANOL BLWYDDYN

Cyflwynodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, Gareth Newell ddiweddariad ar yr adroddiad Hunanasesu Canol Blwyddyn.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr adroddiad Hunanasesu Canol Blwyddyn yn cyflwyno asesiad o berfformiad ar gyfer pob un o saith Amcan Lles y Cyngor, fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2023-26.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi meysydd cynnydd a gwelliant, ac yn nodi nifer o flaenoriaethau gwella strategol a fydd yn destun ffocws yn ystod Chwarter 3 a Chwarter 4 2023/24, sef: Pwysau Ariannol; Pwysau Galw ar draws Gwasanaethau'r Cyngor; Pwysau Gweithlu sy'n effeithio ar holl Wasanaethau'r Cyngor; ac Ymateb i risgiau a phroblemau newydd.

Cafodd yr Adroddiad Hunanasesu Canol Blwyddyn ei ystyried gan Gabinet y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2023.  Ystyriodd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad Asesiad Perfformiad Canol Blwyddyn 2023/24 yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2023. Gwnaeth y Pwyllgor ddau argymhelliad a derbyniwyd y rhain.

Cafodd yr adroddiad ei ystyried hefyd gan Banel Perfformiad y Cyngor, sy'n cynnwys holl Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu, ar 28 Tachwedd 2023.  Gwnaeth y Panel 11 o argymhellion, a derbyniwyd 10 ohonynt yn llawn ac un yn rhannol a rhoddwyd ymatebion i bob cais gan y Panel am fwy o wybodaeth.

Gofynnodd Aelod i ba raddau y byddai'r argymhellion a wnaed gan y Panel Perfformiad yn cael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn i ddod a gweddill y flwyddyn gyfredol.  Dywedodd Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau fod yr argymhellion yn ymwneud yn bennaf â'r asesiad a gyflwynwyd yn yr adroddiad a'u bod yn cael eu gweithredu ar unwaith.  Roedd y Panel o'r farn bod yr asesiad yn anghyflawn ac nad oedd yn adlewyrchu rhai agweddau ar berfformiad.  Byddai'r adroddiad terfynol yn adlewyrchu'r sylwadau hynny.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

68 : DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2022/23

Derbyniodd y Pwyllgor Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2022/23. Gwahoddodd y Cadeirydd Bennaeth Cyllid, Ian Allwood, i gyflwyno'r adroddiad.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) Drafft 2022/23 yn cynnwys datganiadau gan y Rheolwr Archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Uwch Reolwyr yn y drefn honno. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi penderfynu yn ei ystyriaethau y byddai dau o'r tri argymhelliad yn cael eu dwyn

ymlaen i 2023/24 gydag un argymhelliad yn cael ei ystyried yn un sydd wedi'i gwblhau. Mae'r cynnydd ar y camau gweithredu wedi'u nodi isod gyda'r rhesymeg dros naill ai gau'r cam gweithredu neu ei ddwyn ymlaen i 2023/24

*Ymestyn a dyfnhau meysydd ymchwilio'r Uwch Dîm Rheoli mewn perthynas â chydymffurfiaeth, risg a chanlyniadau. – WEDI CAU.*
Mae'r her o ddarparu gwasanaethau gyda mwy o alw a llai o adnoddau ariannol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd adrodd ac ystyried meysydd cydymffurfiaeth ar lefel uwch reolwyr. Cynigiwyd cau'r cam gweithredu hwn gan ei fod bellach yn rhan o'r model gwaith yn y dyfodol. Mae adroddiadau rheolaidd ar gyfarwyddiaethau unigol wedi cael eu hystyried a'u trafod ar lefel yr Uwch Dîm Rheoli ar feysydd fel materion darparu gwasanaethau, Diogelu, Risg, Caffael, Absenoldeb Salwch, Adolygiadau Perfformiad ac mae argymhellion Archwilio Mewnol wedi dod i law yn ystod y flwyddyn. Mae data wedi cael ei anfon ag adroddiadau sy'n galluogi'r Uwch Dîm Rheoli i nodi meysydd gwella ac i sicrhau bod cynnydd lle bo angen yn cael ei gyflawni.

*Ymestyn y sicrwydd ar ansawdd adolygiadau perfformiad drwy gasglu tystiolaeth ar lefel Cyfarwyddiaeth. – Dwyn y cam gweithredu ymlaen i 2023/2024*
Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi derbyn adroddiadau yn rheolaidd ar gydymffurfio ag adolygiadau Perfformiad. Mae cynlluniau cyflawni cyfarwyddiaethau'n parhau'n ffynhonnell amcanion personol a thîm er ei bod yn parhau i gael ei chydnabod nad yw hyn yn wir ar bob lefel oherwydd cwmpas a graddfa rhai cyfarwyddiaethau. Mae ansawdd adolygiadau perfformiad yn parhau'n faes lle mae angen mwy o welliannau i sicrhau bod hyn wedi'i ymgorffori'n llawn trwy gydol cyfarwyddiaethau unigol.

*Ymgorffori yn yr hunanasesiad ar Sicrwydd y Pum Ffordd o Weithio mewn perthynas â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. – Dwyn y cam gweithredu ymlaen i 2023/2024*
Mae'r Hunanasesiad ar sicrwydd wedi'i ddiwygio i gynnwys set benodol o gwestiynau oedd yn ymdrin â'r Pum ffordd o Weithio mewn perthynas â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Cyfarwyddiaethau wedi profi eu hunain yn erbyn yr amcanion hyn ar gyfer cyfnod 2022/23 ond roedd angen cadw'r cam gweithredu hwn ar gyfer 2023/24 i sicrhau bod gwelliant cynaliadwy wedi'i wneud ar draws pob cyfarwyddiaeth.

Dywedodd Pennaeth Cyllid fod DLIB 2022/23 wedi bod yn heriol o ystyried digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ac Archwilio Cymru o'r farn bod y DLIB yn parhau'n gyfredol felly byddai angen i'r adroddiad adlewyrchu newidiadau materol yn ystod y flwyddyn gyfredol er bod yr adroddiad yn seiliedig ar sefyllfa 2022/23. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r sylwebaeth ar absenoldeb y Prif Weithredwr ac ymddiswyddiad y Swyddog Monitro yn hyn o beth.

Nododd Aelod nad oedd datganiad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gan y Cabinet a gofynnodd a oedd hyn yn hepgoriad. Dywedodd Pennaeth Cyllid fod y 3 datganiad yn yr adroddiad wedi'u rhagnodi. Mae'r DLIB yn cael ei gymeradwyo gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon, ond ystyrir mai cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw llywodraethu.

Gofynnodd Aelod a oedd y Cyngor yn 'atebol' i archwiliad allanol fel y nodwyd yn yr adroddiad. Dywedodd Pennaeth Cyllid fod y Cyngor yn atebol mewn ystyr anffurfiol, a'i fod yn hapus i ailystyried y geiriad.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

69 : CAMAU GWEITHREDU ETO I'W CYFLAWNI

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

70 : GOHEBIAETH

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

71 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

72 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

73 : CYLCH GORCHWYL - ADOLYGIAD ÔL-DREIAL RHEOLI GWASTRAFF

Cafodd y Pwyllgor adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Cylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer yr Adolygiad Ôl-dreial Rheoli Gwastraff yn dilyn casgliad ymchwiliad ar raddfa fawr ac achos troseddol i lygredd a arweiniodd at bum unigolyn yn cael eu cael yn euog o droseddau dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo. Roedd y Cylch Gorchwyl yn cynnwys manylion cefndir, y cwmpas lefel uchel, yr amcanion sicrwydd manwl, ac amlinelliad o'r dull gweithredu, trefniadau adolygu ansawdd ac adrodd a byddai'n cael ei arwain gan y Swyddog Adran 151, ar y cyd â'r Swyddog Monitro. Gwahoddwyd y Swyddog Adran 151 i gyflwyno'r adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r adroddiad ar yr adolygiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024 ynghyd ag ymateb y rheolwyr i'r adroddiad.

Gofynnodd Aelod a oedd yn briodol bod swyddog o'r awdurdod yn cynnal yr adolygiad. Mae nifer o swyddogion y cyfwelir â nhw fel rhan o'r adolygiad naill ai'n adrodd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r Swyddog Adran 151. Roedd yr Aelod o'r farn bod pryder cyhoeddus sylweddol yn yr achos a'r colledion a achoswyd o ganlyniad i'r llygredd. Roedd yr Aelod hefyd o'r farn bod natur cynnal adolygiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn sy'n cynnal yr adolygiad feddu ar sgiliau, cymwyseddau a phrofiad ymchwilydd er mwyn canfod yr hyn a ddigwyddodd, yr hyn a aeth o'i le a rhoi sicrwydd na fyddai'n digwydd eto. Gofynnodd yr Aelod am sicrwydd y byddai'r Swyddog Adran 151 yn gofyn am gyngor allanol annibynnol neu gyngor cyfreithiol pe bai angen hynny er mwyn sicrhau bod yr adolygiad ôl-dreial yn gadarn.

Nododd y Swyddog Adran 151 y byddai'n parhau'n wrthrychol drwy gydol yr ymarfer adolygu a chadarnhaodd, os oes angen unrhyw gyngor neu arbenigedd annibynnol,

yna ceisir hynny. O ran annibyniaeth, byddai'r canfyddiadau'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a byddai'r Pwyllgor yn chwarae rhan allweddol wrth brofi a herio'r canfyddiadau hynny.

Derbyniodd yr Aelod y byddai'r Swyddog Adran 151 yn parhau'n wrthrychol drwy gydol yr ymarfer adolygu. Fodd bynnag, roedd canfyddiad y cyhoedd yn bwysig ac roedd yn hanfodol bod y broses nid yn unig yn deg, ond hefyd yn ymddangos yn deg ac nad yw'n peryglu canfyddiad tuedd. Felly, roedd yn bwysig nodi mai'r Swyddog Adran 151 hefyd yw'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a chyflwynir tystiolaeth i'r adolygiad o swyddogaethau fel adrannau Adnoddau Dynol, Rheoli Risg ac Atal Twyll, sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol. Roedd yr Aelod o'r farn y dylid cofnodi ymateb y Swyddog Adran 151 i'r pwyntiau a godwyd felly.

Nododd y Swyddog Adran 151 y pryderon a fynegwyd gan yr Aelod. Fodd bynnag, gall materion fel twyll ddigwydd ar draws unrhyw un o gyfarwyddiadau'r awdurdod a byddai'n parhau'n wrthrychol p'un a oedd hynny o fewn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau neu unrhyw gyfarwyddiaeth arall. Roedd y Swyddog Adran 151 yn ymwybodol o'r mater canfyddiad a rhoddwyd sicrwydd y byddai hyn yn cael sylw fel rhan o'r ymarfer.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch a yw cwmpas yr adolygiad: i geisio sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y systemau sydd ar waith i liniaru'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd; o fewn cymhwysedd y Swyddog Adran 151 yn gyfan gwbl. Gofynnodd yr Aelod hefyd am eglurder ynghylch a fyddai unrhyw systemau data cyfrifiadurol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adolygiad. Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 y byddai'r sicrwydd yn canolbwyntio ar y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith i sicrhau nad yw gweithgarwch o'r fath yn digwydd. Mae'r cwmpas yn dweud yn fwriadol, os nodir materion eraill, nid dim ond y rheiny sy'n ymwneud â'r achos troseddol, fod y rheiny'n cael eu dwyn i'r amlwg hefyd. Cadarnhawyd hefyd y bydd y systemau TGCh sydd ar waith yn rhan o'r adolygiad.

Dywedodd Aelod fod y cwestiynau a ofynnwyd gan yr Aelodau eraill yn ddilys ond ar y cyfan, nid oedd pryder ynghylch unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a bod y Swyddog Adran 151 mewn sefyllfa dda i gynnal yr adolygiad. Nododd Aelod hefyd ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Swyddog Adran 151 arfer gwrthrychedd a bod hynny'n rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor. Derbyniwyd sylw pellach y byddai'r adolygiad yn rhan o'r sicrwydd parhaus a roddir gan y swyddogion y mae'r Pwyllgor yn ei geisio'n barhaus.

Wrth ymateb i bwynt a godwyd gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 y byddai'r adolygiad yn agored i unrhyw unigolyn a allai fod am gyfrannu yn ychwanegol at y partïon a nodwyd eisoes o fewn y cwmpas.

PENDERFYNWYD:

(1) Bod sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu nodi;

(2) Bod y Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer yr Adolygiad Ôl-dreial Rheoli Gwastraff yn cael ei gymeradwyo.

74 : RHEOLI GWASTRAFF - DIWEDDARIAD CYFRINACHOL

Barnwyd bod yr eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag ei chyhoeddi am ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14, 18 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y cyhoedd eu gwahardd o’r cyfarfod trwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad cyfrinachol ar ymchwiliad o fewn Rheoli Gwastraff.

PENDERFYNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 75 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 26 Mawrth 2024.

## 76 : GOHEBIAETH YN DILYN Y CYFARFOD PWYLLGOR

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm